PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Swyddog Datblygu:Prosiect Paratoi

## Pecyn Ymgeisio

childreninwales.org.uk

# Cyflwyniad

**Teitl y Swydd:** Swyddog Datblygu (Prosiect Paratoi)

**Yn Adrodd i'r:** Cyfarwyddwr Polisi

**Lleoliad:** Ystwyth - gweithio o gartref neu yn y swyddfa Caerdydd

**Oriau Gwaith:** 28 awr yr wythnos

Lluniwyd yr wybodaeth amgaeedig i roi darlun llawnach i chi o ofynion y swydd, a gwybodaeth am Plant yng Nghymru.

Lluniwyd y disgrifiad swydd i grynhoi'n eglur gwmpas a chyfrifoldebau'r swydd, a dylid ei ddarllen yn ofalus. Pwrpas y fanyleb person yw nodi, mor fanwl â phosib, yr isafswm o ran sgiliau, profiad a gwybodaeth sy'n ofynnol i'r ymgeiswyr er mwyn cyflawni gofynion y swydd. **Mae'n hanfodol eich bod yn darllen hwn yn ofalus ac yn rhoi sylw i'r meini prawf a geir yn y fanyleb person wrth ymgeisio am y swydd.** Bydd methu â gwneud hynny yn lleihau eich cyfle o gael eich dewis ar gyfer y rhestr fer yn sylweddol.

Bydd y broses ymgeisio yn dod i ben am **13 Mai 2024 (12.00pm)**

Ein tîm recriwtio fydd yn llunio'r rhestr fer ar gyfer cyfweld. Ni fyddan nhw'n cael eich manylion cyswllt nac unrhyw wybodaeth cyfle cyfartal. Bydd yr wybodaeth a roddir gan ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw'n ddiogel am gyfnod o 1 flwyddyn, ac yna'n cael ei dinistrio'n gyfrinachol.

Bydd gofyn bod yr ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer y swydd hon yn cwblhau gwiriad DBS Manwl (y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd), a bydd yr holl wybodaeth a ddarperir yn ystod y broses ymgeisio yn cael ei chadw fel rhan o'ch ffeil cyflogai.

I arbed costau, ni allwn gydnabod derbyn eich cais ond trwy e-bost.

Os llwyddwch i symud ymlaen i gyfweliad, cewch wybod am hynny trwy'r cyfeiriad e-bost a roesoch i ni. Rydyn ni'n bwriadu cynnal cyfweliadau ar **22 Mai 2024** Ffurf y cyfweliad fydd cyflwyniad 15 munud, gyda chwestiynau cyfweliad yn dilyn.

.

# Gwybodaeth Bellach

| | |
|---|---|
| **Contract:** | Parharol |
| **Oriau Gwaith:** | 28 awr yr wythnos |
| **Graddfa Gyflog:** | £34,000 y flwyddyn (pro rata) |
| **Gwyliau Blynyddol:** | 25 diwrnod y flwyddyn (pro rata) |
| **Dull Talu:** | Telir cyflogau'n uniongyrchol i'r cyfrif banc a enwebwyd gan yr aelod o staff ar y 15fed o bob mis |
| **Pensiwn:** | Mae cyflogeion Plant yng Nghymru yn cael eu cofrestru'n awtomatig ar Gynllun Pensiwn y Gweithle, ond gallwch ddewis optio allan. |
| **Lleoliad gwaith:** | Ystwyth - yn gweithio o gartref neu yn y swyddfa Caerdydd<br>Cardiff University Social Science Research Park (SPARK) / (Sbarc)<br>Heol Maindy<br>Caerdydd<br>CF24 4HQ |

**Sylwch y dechreuodd y prosiect hwn yn 2019 a bod cyllid wedi'i sicrhau ar hyn o bryd tan fis Mawrth 2025. Bydd estyniad i hyn yn gofyn am gyflwyniad llwyddiannus i Lywodraeth Cymru**

# Disgrifiad Swydd

**Teitl Swydd:** Swyddog Datblygu (Prosiect Paratoi)

**Yn Adrodd i'r:** Cyfarwyddwr Polisi

**Lleoliad:** Hybrid - ystwyth yn gweithio o gartref neu yn y swyddfa Caerdydd

**Oriau Gwaith:** 28 awr yr wythnos

**Prif ddiben y rôl:**

Diben y swydd yw cyfrannu at gefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i bontio'n ddiogel o ofal a sicrhau sefydlogrwydd o ran tai. Trwy ddatblygu a gweithredu cyfres o adnoddau gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a gweithwyr proffesiynol, bydd deilydd y swydd yn gweithio i rymuso pobl ifanc trwy wella'u gwybodaeth am eu hawliau a'r pethau y dylen nhw eu derbyn wrth gynllunio ar gyfer gadael gofal.

Yn awr yn eu pedwerydd flwyddyn llawn, un elfen o'r 'Prosiect Paratoi', trefniant mewn cydweithrediad rhwng Plant yng Nghymru a Lleisiau o Ofal Cymru, yw'r swydd hon, ac mae'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Bydd deilydd y swydd yn ymgysylltu â thîm Prosiect Paratoi Lleisiau o Ofal, ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol a phobl ifanc â phrofiad o ofal ledled Cymru. Bydd y swydd hon yn cyfrannu at weithredu gwaith polisi, ymarfer ac addysg gyhoeddus Plant yng Nghymru yn effeithiol mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â phrofiad o ofal. Hyd yn hyn, mae'r swydd wedi'i hariannu'n flynyddol, yn amodol ar gwblhau gweithgareddau yn foddhaol.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

- Cydweithio a gweithio'n effeithiol gyda thîm y 'Prosiect Paratoi' i gyflawni nodau a phwrpas y prosiect
- Datblygu cyfres o adnoddau a'u rhoi ar waith gyda phobl ifanc â phrofiad o ofal ac ar eu rhan er mwyn cefnogi pontio diogel o ofal iddyn nhw
- Datblygu adnodd penodol ymhellach gyda gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc â phrofiad o ofal, i wella galluoedd ariannol pobl ifanc, gyda gwybodaeth eglur ynghylch y pethau ddylai fod ar gael iddyn nhw, cyllidebu a'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael
- Cyfrannu at gyflwyno gweithgareddau grŵp, gweithdai a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc â phrofiad ar ystod o sgiliau sy'n ymwneud â phynciau a drafodir yn yr adnoddau
- Datblygu dulliau o sicrhau bod pobl ifanc â phrofiad o ofal yn gallu cyfranogi yn y gwaith a chyfrannu at ei ddatblygiad

- Cynnal partneriaethau gwaith gydag ystod eang o sefydliadau sy'n darparu cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc â phrofiad o ofal, gan gynnwys awdurdodau lleol, cyrff trydydd sector, a gwasanaethau cyngor, budd-daliadau a chyflogaeth

- Cyfrannu at ddarparu gweithdai i weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi pobl ifanc sydd a phrofiad o foal

- Gweithio gyda chydweithwyr Plant yng Nghymru i ddarparu cyfleoedd ychwanegol i bobl ifanc â phrofiad o ofal ymwneud â gwaith ymgysylltiad sy'n ymwneud â hyn

- Gweithio gyda chydweithwyr Plant yng Nghymru i gyfrannu at y rhaglen waith polisi a dylanwadu fel y mae'n ymwneud â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal

- Cyfrannu at drefniadau monitro ac adrodd y prosiect

- Cynhyrchu nodiadau briffio, adroddiadau a chyhoeddusrwydd sy'n hyrwyddo gwaith y prosiect ac yn rhannu arfer gorau

- Cyflawni tasgau gweinyddol priodol i gefnogi'r prosiect

- Cynrychioli'r sefydliad mewn ystod o gyfarfodydd a digwyddiadau yn ôl y galw

- Cyflawni pob un o'r uchod yn unol â nodau, gwerthoedd ac amcanion strategol Plant yng Nghymru, gan roi sylw arbennig i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Pholisïau Amddiffyn Plant

- Cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r sefydliad, a chyflawni unrhyw dasgau eraill ar gais y rheolwr perthnasol a Plant yng Nghymru

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol, gan y gall fod dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y mae Plant yng Nghymru yn gofyn bod deilydd y swydd yn eu cyflawni o bryd i'w gilydd, wrth gyfrannu at gyflawni ei weithgareddau.

# Manyleb Person

**Cyffredinol**

Mae'r swydd hon yn gyfle cyffrous i gyfrannu at wella profiad bywyd a llesiant pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru wrth iddyn nhw bontio'n ddiogel o ofal a sicrhau sefydlogrwydd o ran tai. Bydd angen i chi weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y sefydliad a chynnal perthynas waith effeithiol gyda'n partneriaid Prosiect yn Lleisiau o Ofal Cymru, a hefyd â sefydliadau eraill perthnasol sy'n cefnogi pobl ifanc â phrofiad o ofal.

Bydd gennych chi'r angerdd, y brwdfrydedd a'r ysgogiad angenrheidiol, a byddwch yn gallu arddangos ymrwymiad cadarn i hybu hawliau plant a chapasiti pobl ifanc trwy ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw fel rhan o'ch gwaith. Bydd angen i chi fedru gweithio'n hyblyg, cyfathrebu ac ysgrifennu'n effeithiol, a gallu cyflawni'r prif elfennau sydd dan sylw oddi mewn i amserlenni'r prosiect.

**Gofynion Allweddol - Hanfodol:**

1. Addysg at lefel gradd mewn pwnc perthnasol
2. O leiaf 2 flynedd o brofiad o weithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad penodol megis y sector gwirfoddol, llywodraeth leol, gwaith ieuenctid neu waith cymdeithasol
3. Profiad a gallu profedig i gyfleu gwybodaeth gymhleth, fanwl yn effeithiol ac mewn modd sy'n creu cysylltiad â phobl ifanc, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyflwyno llafar, ysgrifenedig ac eraill
4. Dealltwriaeth o'r materion mae plant â phrofiad o ofal yn eu hwynebu yng Nghymru
5. Gwybodaeth amlwg am ddeddfwriaeth, polisi, ymchwil ac ymarfer perthnasol yng nghyswllt pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal
6. Profiad o waith amlddisgyblaeth, gan gynnwys y sectorau statudol a gwirfoddol, a gallu i frocera a chynnal partneriaethau allanol
7. Gallu i weithio'n greadigol ar eich menter eich hun o fewn canllawiau cytunedig, gyda sgiliau trefnu da, a'r gallu i gadw at derfynau amser, cynllunio a blaenoriaethu gwaith, gyda sgiliau TG da
8. Gallu i sefydlu trefniadau monitro cadarn, cadw at derfynau amser, a phrofiad o brosesau adrodd
9. Gallu profedig i weithio fel rhan o dîm bach a meithrin perthnasoedd mewnol cryf
10. Sgiliau rhyngbersonol a llafar ardderchog

11. Gallu i arddangos gwybodaeth am werthoedd ac egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac ymrwymiad iddynt, gyda phenderfyniad i fynd ati'n effeithiol i hybu ei weithrediad.

**Gofynion Allweddol - Dymunol**

1. Gallu i gyfathrebu yn Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig
2. Gwybodaeth amlwg am ddeddfwriaeth, polisi, ymchwil ac ymarfer perthnasol yng Nghymru yng nghyswllt tlodi plant, cynhwysiad ariannol a materion tai/digartrefedd
3. Profiad o ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant i weithwyr proffesiynol
4. Profiad o lwyddo i sicrhau cyllid o ymddiriedolaethau, sefydliadau neu gyrff eraill

.

# Gwybodaeth Gefndir

Plant yng Nghymru yw'r sefydliad aelodaeth cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer unigolion a sefydliadau o bob sector sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Daw ein haelodaeth o'r sectorau cyhoeddus, elusennol/di-elw ac annibynnol yng Nghymru. Bydd ein gwaith yn cael ei danategu gan ddull cydweithredol, sy'n hwyluso cyfleoedd i'n haelodau, plant a phobl ifanc.

Byddwn yn gweithio tuag at ein gweledigaeth mewn cydweithrediad â'n haelodau drwy:

• Ymgyrchu dros fabwysiadu a gweithredu llawn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar bob lefel o gymdeithas Cymru.
• Herio anghydraddoldebau a hyrwyddo tegwch i holl blant a phobl ifanc Cymru.
• Dod â llais cyfunol at ei gilydd ar gyfer newid trawsnewidiol ar lefel polisi yng Nghymru.
• Hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc o fewn strwythurau penderfyniadau ar bob lefel o lywodraeth yng Nghymru.
• Darparu llwyfan ar gyfer rhannu arfer arloesol ledled Cymru.
• Eirioli dros y sector(au) plant ar feysydd blaenoriaeth.
• Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer y gweithlu proffesiynol plant traws-sector.
• Ymgymryd ag ymchwil, a'i lledaenu ar draws ein haelodaeth.

Mae Plant yng Nghymru yn cynnal nifer o weithgareddau i gyflawni'r nodau hyn, gan gynnwys:

- Trefnu cynadleddau a seminarau
- Darparu Hyfforddiant
- Cefnogi a datblygu rhwydweithiau a fforymau cryf
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- Cynrychioli'r aelodau ac ymgynghori â nhw
- Ymchwil
- Gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc trwy ein prosiect Cymru Ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r cyrff cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae ganddo gysylltiadau cryf yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

Fel sefydliad o aelodau rydyn ni'n sefydlu rhwydweithiau yng Nghymru er mwyn cynrychioli barn yr etholaeth, canfod pryderon cyffredin ac annog gweithgaredd amlddisgyblaeth. Gall aelodau fod yn rhai corfforaethol neu'n unigolion, a deuant o ystod eang o ddiddordebau, megis iechyd, addysg, cyrff gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol neu grwpiau hunangymorth.

Ariannir ein gwaith trwy grantiau gan Lywodraeth Cymru, eraill sy'n rhoi grantiau, ac incwm rydyn ni'n ei gynhyrchu ein hunain.

Mae Bwrdd o Ymddiriedolwyr yn llywodraethu gwaith y sefydliad
http://www.childreninwales.org.uk/